Cadw

Deall a Rheoli

# Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn ategu *Polisi Cynllunio Cymru*[1] a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*[2]

Mae *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth ystyried newidiadau a all gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mae'n egluro statws y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a'i lle yn y system gynllunio, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, cymdeithasau amwynderau a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Er bod y gofrestr yn statudol, nid yw'r broses gofrestru yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau caniatâd newydd.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer perchnogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig a rheoli newidiadau sy'n effeithio arno/arni. Dylai hefyd helpu perchenogion ac asiantiaid i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth)*[3] Cadw er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

Gall perchenogion a rheolwyr ddefnyddio *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* fel canllaw arfer gorau hefyd er mwyn gofalu am safleoedd cofrestredig. Mae'r egwyddorion a'r arferion yn berthnasol i bob parc a gardd hanesyddol yng Nghymru hefyd, p'un a ydynt yn gofrestredig ai peidio.

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r canllawiau hyn hefyd ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ac *Egwyddorion Cadwraeth* wrth ystyried effaith ceisiadau cynllunio unigol ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u lleoliadau.

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Caerffili CF83 8WT

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@llyw.cymru

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN digidol 978-1-4734-8705-5

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 ac eithrio lle y'i nodir. WG44394
Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

**Llun y clawr: Mae Parc Tredegar, Casnewydd, yn barc hanesyddol cofrestredig gradd II* (© Hawlfraint y Goron (2017), Croeso Cymru).**

# Cynnwys


**Cyflwyniað** 04

**Ffeithiau Cyflym** 05

**1. Diogelu Parciau a Gerðði Hanesyððol yng Nghymru** 06

1.1 Beth yw'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru? 07

1.2 Beth yw'r Meini Prawf ar gyfer Cofrestru? 07

1.3 Sut y caiff Parciau a Gerddi Hanesyddol yn Cyfyngu ar yr hyn y Gallaf ei Wneud? 07

1.4 A Allaf Ofyn am Adolygiad? 08

1.5 Yw bod ar y Gofrestr yn Cyfyngu ar yr Hyn y Gallaf ei Wneud? 08

1.5.1 Awdurdodau Cynllunio Lleol 08

1.5.2 Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio 08

1.6 Ystyriaethau Eraill 09

1.6.1 Caniatâd Adeilad Rhestredig 09

1.6.2 Caniatâd Heneb Gofrestredig 09

1.6.3 Dynodiadau Eraill 09

**2. Rheoli eich Parc neu Arðð Hanesyððol Gofrestreðig yng Nghymru** 11

2.1 Deall Arwyddocâd eich Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig 11

2.2 Rheoli Newid i'ch Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig 12

2.3 Arfer Rheoli Da 13

2.3.1 Lleoliad 13

2.3.2 Golygfeydd 13

2.3.3 Archaeoleg 14

2.3.4 Cynllun 14

2.3.5 Mynedfeydd a Llwybrau 14

2.3.6 Nodweddion Ffiniau Hanesyddol 14

2.3.7 Adeiladau ac Addurniadau mewn Gerddi 15

2.3.8 Nodweddion Dŵr 15

2.3.9 Planhigion 16

2.3.10 Dogfennu a Chofnodi 17

**3. Newið yn yr Hinsawðð** 18

**4. Cyfleoeðð Eraill** 19

4.1 Cyllid 19

4.2 Addysg a Sgiliau Treftadaeth 19

4.3 Mynediad i'r Cyhoedd 20

**Rhagor o Wyboðaeth** 21

**Cysylltiaðau** 23

**Cyfeiriaðau** 24

# Cyflwyniad

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn rhan o hunaniaeth genedlaethol Cymru. Maent yn cyfoethogi gwead a phatrwm ein tirweddau ac yn ffurfio cofnod gwerthfawr o newid cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae llawer ohonynt yn cynnig gwerth cadwraeth eithriadol ar gyfer bywyd gwyllt yn ogystal â chyfleoedd hamdden i'r cyhoedd, sy'n cyfrannu at les cymunedau lleol a'n heconomi drwy dwristiaeth, ac yn helpu i gyflawni'r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[4] Fel rhywbeth sy'n rhoi mwynhad a chyfleoedd dysgu, a rhwydwaith gwerthfawr o fannau gwyrdd, mae gan ein parciau a'n gerddi hanesyddol ran bwysig i'w chwarae i adeiladu Cymru sy'n fwy iach a gwyrdd.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016[5] yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig nid yn unig yn bwysig i chi, ond mae hefyd yn bwysig i'ch cymuned leol ac i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Nid yw'r broses gofrestru statudol yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau caniatâd newydd. Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u lleoliadau, yn parhau i gael eu diogelu drwy'r system gynllunio. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a'u lleoliadau wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Diben cofrestru yw gwarchod a diogelu nodweddion hanfodol parciau a gerddi hanesyddol, ond nid oes angen i hyn fod yn rhwystr rhag newid. Er bod eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn ased gwerthfawr ac unigryw, mae'n debyg ei bod eisoes wedi newid dros amser, ac efallai y bydd angen i chi ei newid ymhellach. Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Mae hyn yn golygu dod o hyd i'r ffordd orau o ddiogelu a gwella nodweddion arbennig eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol werthfawrogi a mwynhau'ch parc neu ardd.

## Ffeithiau Cyflym

1. Gall dealltwriaeth dda o arwyddocâd eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig helpu i lywio eich cynigion ar gyfer newid er mwyn sicrhau eich bod yn cadw'r hyn sy'n arbennig am y parc neu'r ardd.
2. Mae parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn adnodd cyfyngedig i'w drysori a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
3. Gall newid fod yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ond mae angen ei reoli'n dda.
4. Gall deall eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig eich helpu i leihau unrhyw niwed a manteisio i'r eithaf ar newidiadau er mwyn gwarchod a gwella'r parc neu ardd.
5. Efallai y bydd yn rhaid addasu eich dull o reoli eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig oherwydd effeithiau newid na ellir ei osgoi, fel effaith newid yn yr hinsawdd.

1—

# Diogelu Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

**Mae parciau a gerddi hanesyddol yn adnodd bregus a chyfyngedig y gellir ei niweidio neu ei golli'n hawdd. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd ac annog y sawl sy'n ymwneud â'r gwaith o'u rheoli i'w trin fel mannau gwerthfawr a nodedig.**

**Mae hyn yn cynnwys perchenogion, asiantiaid, awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed os nad yw eich parc neu ardd hanesyddol yn gofrestredig, gall fod â gwerth hanesyddol o hyd.**

1.1

## Beth yw'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru?

**Mae'n ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr gynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru. Yn ymarferol, rydym ni — Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) — yn cyflawni'r dyletswyddau hyn ar ran Gweinidogion Cymru. Gellir ychwanegu safleoedd at y gofrestr neu eu tynnu oddi arni a gellir diwygio cofnodion safleoedd. Mae'r wybodaeth ar y gofrestr yn sail ar gyfer rheoli newid mewn modd cynaliadwy, yn bennaf drwy'r system gynllunio.**

Cyhoeddwyd y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru gyntaf mewn chwe chyfrol sirol rhwng 1994 a 2002 fel rhan o'r *Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig*. Cyhoeddwyd cofrestr ategol o 14 o safleoedd ychwanegol yn 2007. Ers y dyddiad hwnnw, mae cofnodion newydd wedi'u nodi a bellach, mae bron i 400 o safleoedd ar y gofrestr.

Mae'r safleoedd ar y gofrestr yn amrywio o ran eu dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Maent yn amrywio o ran arddull, o barciau ceirw canoloesol, parciau ffurfiol a pharciau tirwedd, i ffermydd arbrofol, tirweddau sefydliadau, mynwentydd, gerddi trefol a pharciau cyhoeddus. Ceir cyflwyniad da i hanes cronolegol parciau a gerddi yng Nghymru yn *The Historic Gardens of Wales*.[6]

Er mai ystadau gwledig yw cyfran fawr o'r gofrestr, yr elfen gyffredin sy'n uno pob parc a gardd hanesyddol sy'n gofrestredig yw eu gwerth eithriadol i Gymru. Mae pob un ohonynt yn ffynhonnell wybodaeth unigryw am y gorffennol: mae i bob parc a gardd hanesyddol sy'n gofrestredig hanes unigryw. Efallai eu bod yn cynnwys tystiolaeth werthfawr ynghylch sut a ble y cawsant eu creu, sut y cawsant eu defnyddio, a sut maent wedi newid dros amser.

Mae gwybodaeth gyfredol am bob parc a gardd hanesyddol sy'n gofrestredig ar gael i'r cyhoedd yn Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol Cymru.[7]

## 1.2
# Beth yw'r Meini Prawf ar gyfer Cofrestru?

**Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol at y gofrestr pan nodir eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig a phan fyddant yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol[8]:**

- yn dangos rhyw agwedd benodol ar hanes gerddi, parciau, tiroedd wedi'u cynllunio, tirweddau addurniadol wedi'u cynllunio a mannau hamdden, neu hanes garddio, tirweddu addurniadol neu arddwriaeth
- bod ganddynt gysylltiadau hanesyddol pwysig (er enghraifft, ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol)
- bod ganddynt werth fel grŵp ag adeiladau neu dir arall a bod y gwerth grŵp ei hun o ddiddordeb hanesyddol; er enghraifft, efallai eu bod yn lleoliad hanesyddol ar gyfer adeilad o ddiddordeb hanesyddol.

Gall parciau hanesyddol cofrestredig fod yn:

- erddi
- parciau
- tiroedd wedi'u cynllunio
- tirweddau addurniadol wedi'u cynllunio
- mannau hamdden.

Weithiau, gall cofrestriad gynnwys adeiladau, dŵr neu dir gerllaw neu gyfagos.

Mae pob cofnod yn y gofrestr yn cynnwys map sy'n nodi maint yr ardal gofrestredig (gweler adran 2.3.2). Mae'r ffin yn pennu'r holl ardal yr ystyrir ei bod o bwys ac mae'n seiliedig ar ein gwaith ymchwil. Nid yw perchenogaeth bresennol tir yn effeithio ar y modd y caiff y ffin ei phennu. Rydym yn defnyddio dogfennau a mapiau hanesyddol ynghyd â thystiolaeth a gesglir yn ystod gwaith maes i bennu'r ffin. Weithiau, bydd nodweddion fel waliau a gatiau yn dangos yn glir ble y gellir llunio ffin. Mewn amgylchiadau eraill, lle mae'r dystiolaeth yn llai clir, rydym yn defnyddio barn broffesiynol i bennu llinell fwyaf rhesymegol y ffin.

Mae'r holl barciau neu erddi hanesyddol cofrestredig o ddiddordeb hanesyddol arbennig, ond cânt eu graddio mewn system sy'n debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig (I, II*, II). Mae'r graddau'n dynodi'r rhinweddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Gradd I** | parciau a gerddi sydd o ddiddordeb eithriadol o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd |
| **Gradd II*** | parciau a gerddi sydd o ansawdd gwych o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd |
| **Gradd II** | parciau a gerddi sydd o ddiddordeb arbennig o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd. |

## 1.3
# Sut y caiff Parciau a Gerddi Hanesyddol eu Hychwanegu at y Gofrestr?

**Gallwn ychwanegu safleoedd newydd at y gofrestr unrhyw bryd ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru a ddisgrifir yn adran 1.2. Gellir nodi safleoedd mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys drwy ein hymchwil ein hunain a thrwy awgrymiadau gan awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau treftadaeth eraill, aelodau o'r cyhoedd a pherchenogion parciau a gerddi hanesyddol. Rydym yn croesawu enwebiadau ar gyfer y gofrestr ond mae angen inni gael gwybodaeth sy'n dangos bod safleoedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru.**

Pan fyddwn yn fodlon bod parc neu ardd hanesyddol yn bodloni'r meini prawf, fel arfer byddwn yn ymgynghori â pherchenogion a deiliaid y safle, ynghyd â'r awdurdod cynllunio lleol ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru,[9] cyn i'r broses gofrestru fynd rhagddi. Yn aml, bydd mewnbwn tirfeddianwyr a rheolwyr sy'n adnabod y safle yn dda yn amhrisiadwy i'n dealltwriaeth o'i arwyddocâd. Mae hefyd yn rhoi cyfle inni egluro'n llawn oblygiadau cofrestru ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi. Felly, byddwn yn gwneud ein gorau i ymgynghori â phob perchennog a deiliad, ond ni fydd hyn yn bosibl bob amser, yn enwedig ar gyfer safleoedd mawr gyda sawl perchennog.

Weithiau, os bydd parc neu ardd hanesyddol dan fygythiad, efallai na fyddwn yn gallu ymgynghori'n llawn cyn y broses gofrestru ond byddwn yn sicrhau y caiff y perchennog ei hysbysu cyn gynted â phosibl.

## 1.4
# A Allaf Ofyn am Adolygiad?

Cewch ofyn i ni adolygu ein penderfyniad i gofrestru parciau a gerddi hanesyddol, gan gynnwys eu gradd. Er mwyn inni allu ystyried adolygiad, rhaid i chi naill ai ddangos bod camgymeriad wedi bod yn ystod y broses gofrestru neu gyflwyno gwybodaeth newydd sy'n dangos nad yw'r safle, neu ran ohono, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru neu'r radd a roddwyd. Cyn ysgrifennu atom, mae'n syniad da cael cyngor gan arbenigwr sydd â gwybodaeth arbenigol am y broses o gofrestru parciau a gerddi hanesyddol. Efallai y gall Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru gynnig cyngor neu argymell arbenigwr. Mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y canllawiau hyn.

## 1.5
# Yw bod ar y Gofrestr yn Cyfyngu ar yr hyn y Gallaf ei Wneud?

**Yn wahanol i restru, nid yw cofrestru yn rhoi unrhyw gyfundrefn cydsyniad ychwanegol ar waith ac, fel arfer, nid ydym yn ymwneud â'r broses o reoli a chynnal a chadw parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig o ddydd i ddydd. Yn hytrach, cânt eu diogelu yn bennaf drwy'r system gynllunio.**

Yn hytrach nag atal newid, nod y broses gofrestru yw amlygu arwyddocâd parc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig, fel y gellir ystyried hyn wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau datblygu.

### 1.5.1 Awdurdodau Cynllunio Lleol

Dylai awdurdodau cynllunio werthfawrogi, gwarchod, diogelu a gwella'r budd arbennig a geir mewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a'u lleoliadau sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Dylai'r gofrestr gael ei hystyried ym mhenderfyniadau awdurdodau cynllunio.[10] Pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio, dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig, neu leoliad y parc neu'r ardd fod yn ystyriaeth berthnasol.[11] Weithiau, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth i'w alluogi i benderfynu ar gais cynllunio.[12] Gall hyn gynnwys datganiad o'r effaith ar dreftadaeth os yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig, neu leoliad y parc neu'r ardd.

Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â Cadw ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, neu eu lleoliadau.[13] Gall yr awdurdod cynllunio lleol ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru hefyd ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a'u lleoliadau, gan gynnwys safleoedd cofrestredig.[14]

### 1.5.2 Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio

Cyn paratoi cais cynllunio, dylech ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar y parc neu'r ardd hanesyddol sy'n gofrestredig, a'r lleoliad, yn cynnwys golygfeydd o bwys. Bydd angen i chi roi gwybodaeth ddigonol, ond cymesur, i'r awdurdod cynllunio lleol fel y gellir asesu effaith debygol eich cynigion. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried eich cynlluniau hirdymor ar gyfer y safle er mwyn i chi osgoi datblygiad tameidiog neu ad hoc, a all niweidio cymeriad hanesyddol dros amser. Efallai y byddwch hefyd am ystyried gwella'r safle, er enghraifft, drwy ddileu strwythurau amhriodol.

Rydym yn argymell y dylech gynnal trafodaethau cyn gwneud cais gyda swyddog cynllunio, swyddog cadwraeth a chynghorydd archaeolegol yr awdurdod lleol. Gall yr awdurdod cynllunio lleol ein gwahodd i'r trafodaethau cyn gwneud cais hyn.[15]

Pan fyddwch yn cyflwyno cais datblygu sy'n debygol o gael effaith ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig, neu'r lleoliad, rydym yn argymell yn gryf y dylech gynnwys datganiad o effaith ar dreftadaeth gyda'ch dogfennau ategol (gweler adran 2.2).

Mae Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn ffynhonnell dda o wybodaeth am erddi hanesyddol yng Nghymru ac mae'n bosibl y gall gynnig cyngor am eich newidiadau arfaethedig cyn i chi gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio.

## 1.6
# Ystyriaethau Eraill

**Mae nifer o ystyriaethau eraill y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt, er nad ydynt o ganlyniad i gofrestru.**

### 1.6.1 Caniatâd Adeilad Rhestredig

Efallai bod eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn cynnwys adeiladau neu nodweddion sy'n rhestredig oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith a all effeithio ar gymeriad strwythur rhestredig neu ei leoliad, bydd angen i chi wneud cais i'ch awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd adeilad rhestredig.

Os byddwch yn gwneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig, bydd angen i chi gyflawni asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a chyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais i'ch awdurdod cynllunio lleol. Ni ddylai asesiad o'r effaith ar dreftadaeth fod yn feichus, ond dylai fod yn gymesur â'r cynnig a'r arwyddocâd o ran treftadaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am asesiadau a datganiadau o effaith ar dreftadaeth yn yr *Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.[16]

Rydym yn argymell y dylech geisio cyngor gan swyddog cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol ynghylch gwneud newidiadau i adeilad rhestredig cyn i chi wneud cais am ganiatâd. Dylech hefyd ystyried ei bod yn bosibl i nodweddion hanesyddol nad ydynt yn rhestredig yn eu rhinwedd eu hunain fod wedi'u cwmpasu gan y dynodiad adeilad rhestredig o hyd fel strwythurau cwrtil; er enghraifft, gall rheiliau neu waliau terfyn o amgylch tŷ rhestredig fod wedi'u diogelu fel rhan o gwrtil y tŷ.

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*.[17]

### 1.6.2 Caniatâd Heneb Gofrestredig

Efallai bod eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn cynnwys nodweddion archaeolegol sydd wedi'u dynodi'n henebion. Bydd angen caniatâd heneb gofrestredig gennym er mwyn gwneud gwaith ar henebion, felly ceisiwch gyngor.

Yn dibynnu ar natur y newidiadau a gynigir gennych, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais am ganiatâd heneb gofrestredig.[18]

Efallai bod eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn cynnwys nodweddion archaeolegol arwyddocaol hefyd sydd heb eu dynodi neu heb eu darganfod eto. Efallai bod eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol yn cynnwys rhagor o wybodaeth.[19] Wrth ystyried newid a all effeithio ar nodweddion archaeolegol, dylech gysylltu â chynghorwyr archaeolegol eich awdurdod cynllunio lleol i ofyn am gyngor.

### 1.6.3 Dynodiadau Eraill

Efallai bod eich parc neu ardd hanesyddol yn rhan o ardal gadwraeth neu ar restr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Os felly dylech holi eich awdurdod cynllunio lleol am unrhyw gyfyngiadau a all fod yn gymwys wrth gynllunio i wneud newidiadau.

Os byddwch yn gwneud cais am ganiatâd ardal gadwraeth i ddymchwel adeilad, bydd angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais i'ch awdurdod cynllunio lleol.[20]

Efallai bod eich parc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig yn cynnwys coed sydd wedi'u diogelu gan Orchmynion Cadw Coed[21] , statws ardal gadwraeth neu amodau cynllunio, felly efallai y bydd angen i chi hysbysu eich awdurdod cynllunio lleol neu geisio caniatâd priodol cyn dechrau ar unrhyw waith. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall Rheoliadau Perthi 1997[22] fod yn gymwys i wrychoedd yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig. Rydym yn argymell y dylech geisio rhagor o gyngor gan eich awdurdod lleol ynghylch y dynodiadau hyn.

Mae gan barciau a gerddi hanesyddol werth mawr o ran bioamrywiaeth hefyd. Gellir cael cyngor ynghylch dynodiadau amgylcheddol naturiol — fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol — a dynodiadau bywyd gwyllt gan Cyfoeth Naturiol Cymru.[23] Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor strategol hefyd ynghylch dynodiad tirwedd cenedlaethol, fel Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol. Os hoffech wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu o fewn y dynodiadau hyn, dylech gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol.

Efallai y bydd angen trwydded cwympo coed neu reoli coetir arnoch ar gyfer rhai mathau o waith mewn ardaloedd coetir. Rhoddir y trwyddedau hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a all ymgynghori â Cadw ynghylch ceisiadau am drwyddedau o fewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Os ydych yn ystyried cwympo a/neu ailblannu coed, mae'n arfer da ystyried effaith hyn ar eich parc neu'ch gardd hanesyddol, a cheisio cyfleoedd i wella'r safle drwy gynigion i ailblannu. Gall plannu amhriodol guddio gwerth hanesyddol safle neu amharu arno.  Gweler canllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS), *Forests and Historic Environment and Forests and Landscape* am ragor o wybodaeth a chanllawiau.[24]

Efallai y bydd cynlluniau rheoli tir cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i chi fodloni safonau gofal penodol ar gyfer gofalu am nodweddion hanesyddol, yn cynnwys parciau a gerddi hanesyddol sy'n gofrestredig. Efallai y byddant yn rhoi cyfle hefyd i wella safleoedd cofrestredig drwy reoli priodol a/neu waith cyfalaf. Mae Cadw yn darparu cyngor pan fydd cynlluniau'n effeithio ar barciau a gerddi cofrestredig.

# 2—

# Rheoli eich Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig yng Nghymru

**Mae parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn parhau i esblygu. Ni ellir eu cadw heb eu newid ac, yn aml, mae angen cyflwyno newidiadau er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor. Gall newidiadau gynnwys sawl math o weithgarwch yn amrywio o waith cynnal a chadw rheolaidd i waith newydd neu addasiadau. Gall newidiadau sy'n debygol o effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig neu eu lleoliadau effeithio ar eu harwyddocâd a'u cymeriad hanesyddol.**

## 2.1

## Deall Arwyddocâd eich Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig

**Mae'n bwysig deall bod parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn wahanol i asedau hanesyddol dynodedig eraill mewn nifer o ffyrdd:**

- maent yn cwmpasu ardaloedd mawr o dir yn aml, weithiau gyda nifer o berchenogion a threfniadau rheoli gwahanol
- mae strwythur cyffredinol parc neu ardd yn seiliedig ar amrywiaeth o elfennau naturiol ac elfennau o waith dyn o arwyddocâd hanesyddol. Gall hyn gynnwys olion archaeolegol a strwythurau adeiledig, gwaith plannu ffurfiol ac anffurfiol, parcdir a thir amaethyddol, coetir, nodweddion dŵr a nodweddion sy'n gysylltiedig â rheoli dŵr, a thirffurfiau naturiol ac artiffisial. Efallai y bydd rhai o'r nodweddion hyn wedi'u diogelu yn eu rhinwedd eu hunain fel adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig neu goed gwarchodedig
- maent bob amser yn cynnwys elfen fyw a blannwyd sydd felly'n fyrhoedlog
- mae eu helfennau, gan gynnwys gwaith plannu (bwriadol a damweiniol), nodweddion dŵr (naturiol ac a gynlluniwyd) a nodweddion adeiledig hynafol (cynefin i gen a fflora a ffawna wal hefyd), yn golygu bod i barciau a gerddi hanesyddol werth mawr o ran bioamrywiaeth yn aml.

Yn aml, ond nid bob amser, mae parciau a gerddi hanesyddol yn cynnwys sawl 'haen', a all adlewyrchu'r canlynol:

- newid yn y ffordd y cafodd tir ei ddefnyddio a'i reoli dros amser
- hinsoddau gwleidyddol, amgylcheddol neu economaidd yn y gorffennol
- newid mewn perchenogaeth
- newid mewn ffasiwn o ran dyluniad tirweddau
- datblygiadau technolegol
- darganfyddiadau garddwriaethol newydd.

Rydym yn argymell y dylech nodi arwyddocâd eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig cyn i chi hyd yn oed ystyried gwneud newidiadau iddi. Gall datganiad arwyddocâd eich helpu i gofnodi beth sy'n bwysig am y safle, pam ac i bwy.

Gall pob agwedd ar eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig fod yn rhan o'i stori a chyfrannu at arwyddocâd y parc neu'r ardd. Fodd bynnag, nid yw pob agwedd mor arwyddocaol â'i gilydd o reidrwydd, a dylid ystyried pob un yn ôl ei rhinwedd ei hun. Bydd deall pam mae eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig o ddiddordeb hanesyddol arbennig a'r hyn sy'n arwyddocaol am y parc neu'r ardd yn eich helpu i ofalu am y parc neu'r ardd.

Efallai y bydd y cofnod yn y gofrestr a gedwir ar Cof Cymru[25] — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru — yn esbonio pam mae eich parc neu'ch gardd hanesyddol yn gofrestredig, ond efallai na fydd yn cynnwys manylion ei holl nodweddion arbennig. Nid yw'n ddatganiad o arwyddocâd.

Mae ein *Hegwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*[26] yn egluro mwy am ddeall gwerthoedd treftadaeth eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig ac asesu arwyddocâd y parc neu'r ardd.

### Gwybodaeth am eich Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig

**Gall gwaith ymchwil hanesyddol eich helpu i ddeall eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig a datblygiad y parc neu'r ardd dros amser. Bydd hyn yn eich helpu i nodi beth sy'n bwysig cyn i chi ystyried gwneud unrhyw newidiadau.**

**Mae'r cofnod yn y gofrestr yn cael ei gynnal ar Cof Cymru ac yn cynnwys y rhesymau dros y cofrestru a disgrifiad cryno o'r safle.**

**Mae disgrifiad hir o'r gofrestr — sydd ar gael gan Cadw — yn rhoi gwybodaeth am hanes a datblygiad safle ynghyd â disgrifiad o'r safle ar adeg cofrestru. Cyhoeddwyd hwn yn wreiddiol fel cyfres o saith cyfrol.**

**Efallai y bydd rhagor o wybodaeth am y safle a'i nodweddion hanesyddol ar gael gan:**

- **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
- **cofnodion amgylchedd hanesyddol lleol**
- **ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru**
- **swyddfa archifau leol neu archifau teulu preifat**
- **Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.**

**Gall mapiau ystadau, mapiau'r degwm a mapiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans roi manylion am gynllun hanesyddol a defnydd o dir. Efallai y bydd cynlluniau a glasbrintiau manwl ar gael ar gyfer adeiladau unigol neu strwythurau mewn gerddi a pharciau.**

**Ymysg y ffynonellau gwybodaeth eraill mae llenyddiaeth, barddoniaeth, paentiadau ac ysgythriadau cyfoes, dyddiaduron preifat a llythyrau, cardiau post a ffotograffau, cofnodion cyfrifon a gwariant, catalogau gwerthiannau ac atgofion a phrofiadau pobl.**

## 2.2
## Rheoli Newid i'ch Parc neu Ardd Hanesyddol Gofrestredig

**Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi lunio cynllun rheoli cadwraeth er mwyn helpu i reoli newid yn effeithiol, yn enwedig os yw eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn safle mawr neu gymhleth iawn. Argymhellir y dylech gael arbenigwyr i baratoi eich cynlluniau ond dylent fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y safle. Gallwch ddefnyddio'r cynllun i lywio eich penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o reoli a chynnal y safle yn yr hirdymor.**

Mae cynllun rheoli cadwraeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'ch parc neu ardd hanesyddol gofrestredig ac mae'n cynnwys datganiad o arwyddocâd. Mae hefyd yn nodi risgiau presennol a phosibl i'ch parc neu'ch gardd hanesyddol ac yn chwilio am gyfleoedd i wella'r parc neu'r ardd. Efallai y bydd angen i chi gydbwyso gofynion modern, fel meysydd parcio, gwaredu gwastraff neu arwyddion, gyda phwysigrwydd hanesyddol y safle.

Dylai eich cynllun rheoli cadwraeth ystyried cynaliadwyedd ariannol gwaith cynnal a chadw hirdymor hefyd. Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen cyfaddawdu er mwyn taro cydbwysedd rhwng cadwraeth briodol a chynhyrchu incwm. Mae *Egwyddorion Cadwraeth* yn darparu fframwaith i ystyried tensiynau o'r fath a'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy.[27]

Mae eich dadansoddiad yn rhoi sail i'ch polisïau rheoli sy'n nodi sut y byddwch yn rheoli'r safle o ddydd i ddydd ac yn yr hirdymor. Mae cynllun rheoli cadwraeth yn ddull cyfannol hirdymor o reoli safle, sy'n rhwystro newidiadau amhriodol ac ad hoc a all amharu ar gymeriad hanesyddol y safle.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol[28] yn rhoi cyngor defnyddiol ynghylch paratoi cynlluniau rheoli cadwraeth, yn cynnwys datganiadau o arwyddocâd.

P'un a oes gennych gynllun rheoli cadwraeth ar waith ai peidio, mae'n bwysig ystyried effaith eich cynigion ar gyfer newid ar arwyddocâd eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Yn benodol, dylech fod yn ymwybodol o effaith gronnus bosibl newidiadau bach a all, yn unigol, ymddangos yn ddiarwyddocâd. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi geisio cyngor proffesiynol.

Mae'r adran nesaf sy'n sôn am arfer rheoli da yn egluro mwy am y mathau o newid y gallwch ddod ar eu traws. Efallai y byddwch yn gweld bod y broses o asesu effaith ar dreftadaeth yn eich helpu i nodi canlyniadau eich cynigion a chynllunio eich newidiadau er mwyn sicrhau'r effaith leiaf bosibl.

2.3

# Arfer Rheoli Da

**Mae'r adran hon yn amlinellu'r nodweddion allweddol a all gyfrannu at bwysigrwydd eich parc neu ardd hanesyddol ac yn awgrymu arfer gorau ar reoli'r parc neu'r ardd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n tynnu sylw at egwyddorion a dulliau gweithredu cyffredinol, ond mae'n bwysig cofio y bydd gwahanol ddatrysiadau yn gymwys o dan wahanol amgylchiadau gan fod pob parc neu ardd hanesyddol yn unigryw.**

## 2.3.1 Lleoliad

**Gellir egluro lleoliad fel yr amgylchedd lle y deellir, y profir ac y gwerthfawrogir eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig. Mae'n cynnwys y gydberthynas rhwng gofodau a strwythurau, rhwng tirweddau a gynlluniwyd a thirweddau o'u cwmpas, a rhwng defnyddiau esthetig ac iwtilitaraidd.**

Yn aml, ystyrir mai'r lleoliad sy'n rhoi ansawdd esthetig neu weledol i le, ond mae hefyd yn cynnwys tawelwch a ffactorau synhwyraidd eraill, fel sain ac arogl. Gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol, ieithyddol neu olygfaol fod yn ffactorau pwysig hefyd.

Wrth ystyried newid, dylech fabwysiadu dull cyfannol o ddeall ei effaith bosibl ar leoliad.

Er enghraifft, ar ystad tŷ gwledig, mae'n bosibl bod y prif dŷ wedi'i leoli o fewn gerddi a thir ffurfiol gyda hierarchaeth o adeiladau a strwythurau ystad. Gall y gerddi a'r tir ffurfiol fod wedi'u hamgylchynu gan ystad ehangach o barcdir agored ac ardaloedd o goetir a ffermdir a reolir. Mae'r gerddi a'r ystad ehangach yn darparu'r lleoliad ar gyfer y tŷ. Y tu hwnt i hyn, mae'r dirwedd wledig o amgylch yn darparu'r lleoliad ar gyfer y safle cyfan. Gallai effaith newid ar unrhyw un elfen arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer y lleoliad os na chaiff ei ystyried yn briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am leoliadau yn *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*.[29]

## 2.3.2 Golygfeydd

**Gall fod gan olygfeydd ran bwysig iawn i'w chwarae yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig, cymaint fel y gellir nodi cyfeiriad golygfeydd pwysig fel rhan o'r cofnod yn y gofrestr. Efallai eu bod yn cyfrannu at ei bwysigrwydd fel rhan o ddyluniad hanesyddol a ddylanwadodd ar y ffordd y gwerthfawrogid y parc neu'r ardd yn y gorffennol — a sut y'i gwerthfawrogir heddiw. Er enghraifft, efallai bod lleoliad a chyfeiriad adeiladau wedi'u dewis er mwyn manteisio ar y dirwedd a'r golygfeydd o amgylch. Efallai bod y gerddi a'r parcdir wedi'u dylunio a'u plannu'n ofalus er mwyn ategu'r lleoliad, i ganolbwyntio golygfeydd o fewn y dirwedd a ddyluniwyd ac wrth i ni symud drwyddi a/neu i fanteisio ar 'olygfeydd a fenthycir' y tu hwnt i ffin yr eiddo.**

Gall golygfeydd dynnu sylw at y dirwedd, efallai gan dywys y llygad ar hyd golygfa gul, neu tuag at adeilad neu glwstwr o goed yn y pellter canol. Gall golygfeydd dywys y llygad hefyd tuag at olygfeydd panoramig o'r wlad o amgylch gyda mynyddoedd pell yn y cefndir neu ar draws y môr i'r gorwel. Efallai bod gwerth hanesyddol i'r tirweddau ehangach hyn hefyd, a gellir eu cynnwys yn y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.[30]

Dros amser, gellir colli neu beryglu golygfa. Gall hyn fod o ganlyniad i blannu amhriodol, gwaith datblygu anghyson, neu ddiffyg cynnal a chadw sydd wedi galluogi llystyfiant i dyfu ac amharu ar yr olygfa a fwriedir. Gall trefniadau rheoli gwahanol arwain at golli golygfeydd hanesyddol hefyd, yn enwedig pan fydd parc neu ardd hanesyddol wedi'i (h)isrannu a bod mwy nag un perchennog.

Pan fyddwch wedi nodi cyfraniad y golygfeydd at bwysigrwydd eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig, efallai y gallwch agor a rheoli golygfeydd a fwriedir a fydd yn gwella cymeriad hanesydd y safle a'i werth o ran treftadaeth, yn ogystal â'ch gwerthfawrogiad ohono.

## 2.3.3 Archaeoleg

**Gall elfennau o barciau a gerddi oroesi fel nodweddion archaeolegol hefyd. Gall gweddillion cynlluniau a nodweddion blaenorol gerddi, fel terasau, llwybrau, tramwyfeydd, gwelyau plannu, tyllau coed, cloddiau, waliau a nodweddion dŵr oroesi fel strwythurau sy'n sefyll yn rhannol, cloddwaith neu nodweddion is-wyneb. Nid yn unig y mae gweddillion o'r fath yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiad hanesyddol, dulliau adeiladu, cynllun a dyluniad, ond maent hefyd yn rhoi gwybodaeth am swyddogaeth ystadau a rhaniadau tir. Gellir defnyddio ystod o dechnegau archaeolegol i astudio archaeoleg gerddi, gan gynnwys arsylwi ac arolygu yn y maes, rhagchwilio o'r awyr, arolygon geoffisegol a chloddio. Gellir cyfuno'r wybodaeth hon â thystiolaeth o fapiau a thystiolaeth archifol er mwyn ffurfio darlun a meithrin gwell dealltwriaeth o'r parc a'r ardd hanesyddol.**

Gall nodweddion archaeolegol arwyddocaol fod yn bresennol mewn parc neu ardd hanesyddol; efallai nad ydynt wedi'u dynodi neu heb eu darganfod eto. Wrth ystyried newid a all effeithio ar nodweddion archaeolegol, dylech gysylltu â chynghorwyr archaeolegol eich awdurdod cynllunio lleol i ofyn am gyngor.

## 2.3.4 Cynllun

**Cynllun hanesyddol eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig sy'n darparu'r fframwaith ffisegol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid. Gellir ystyried cynllun fel y gydberthynas rhwng prif elfennau'r parc neu'r ardd — gofod agored, adeiladau a strwythurau eraill, planhigion, llwybrau a ffiniau. Gall dyluniad a/neu swyddogaeth bennu'r gydberthynas hon.**

Mae'n bwysig eich bod yn deall elfennau pwysig cynllun hanesyddol eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig ac yn dehongli eu hesblygiad. Bydd hyn yn eich helpu i wneud penderfyniadau rheoli hyddysg ac ymatebol heb beryglu'r pwysigrwydd hanesyddol.

Mewn rhai achosion, pan fydd gan safle sawl perchennog a phan fydd yna drefniadau rheoli ar wahân, gall y cynllun hanesyddol fod yn anoddach ei ddehongli. Yn aml, gall y cofnod yn y gofrestr a gwaith ymchwil ychwanegol, gan ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans hanesyddol, er enghraifft, ddatrys unrhyw amwysedd er mwyn eich helpu i ddeall pob rhan o'r parc neu'r ardd hanesyddol.

## 2.3.5 Mynedfeydd a Llwybrau

**Fel arfer, trefnir mynedfeydd a llwybrau mewn hierarchaeth, yn dibynnu ar eu defnydd a phwy oedd yn eu defnyddio. Yn aml, adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn eu dyluniad. Bydd gwahaniaethau hefyd yn dibynnu ar y math o safle a'r dyddiad y cafodd ei greu.**

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylech gadw llwybrau cylchrediad hanesyddol ar agor. Gall y wybodaeth yn y cofnod yn y gofrestr a'r gwaith ymchwil o fapiau hanesyddol eich helpu i ddeall pa lwybrau sy'n bwysig. Os oes modd, dylech osgoi creu llwybrau ychwanegol sy'n isrannu parcdir neu'n newid y cynllun hanesyddol. Os na ellir osgoi llwybr newydd, neu os yw llwybr newydd yn ddymunol iawn, dylech ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau'r effaith andwyol leiaf bosibl ar eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig. Os oes angen llwybrau ychwanegol, ystyriwch gyfleoedd i agor hen dramwyfeydd a llwybrau hanesyddol drwy'r safle.

## 2.3.6 Nodweddion Ffiniau Hanesyddol

**Mae nodweddion ffiniau hanesyddol (megis gwrthgloddiau, waliau, rheiliau, ffensys, gwrychoedd) yn ychwanegu at natur unigryw leol. Maent hefyd yn bwysig i gynllun hanesyddol a chymeriad hanesyddol eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig.**

Gall ffiniau fod yn rhwystrau ffisegol a gweledol, fel waliau a gwrychoedd, neu gallant fod yn rhwystrau ffisegol sydd yn caniatáu golygfeydd, fel ffensys parcdir neu ffosydd cudd. Gallant ffurfio ffin o amgylch eich safle cofrestredig yn ogystal ag amgáu gofodau oddi mewn iddo, fel gerddi â waliau o'u cwmpas. Gall fod gwerth uchel o ran bioamrywiaeth iddynt hefyd.

Yn ogystal â chreu rhwystr, mae planhigion perimedr yn rhoi cysgod a gwerth addurniadol hefyd.

Dylech gadw nodweddion ffiniau hanesyddol lle y bo modd a dylech ddefnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol ar gyfer unrhyw waith atgyweirio. Lle y bo'n bosibl, dylid osgoi ychwanegu ffiniau parhaol mewn parcdir agored am eu bod yn ymrannu'r dirwedd yn ffisegol ac yn weledol, ac yn newid y cynllun hanesyddol.

Mae'n bwysig ystyried swyddogaeth y ffin hefyd. Er enghraifft, diben gardd furiog yw amgáu gofod agored a ddefnyddir yn draddodiadol at ddibenion garddwriaethol. Yn aml, ystyrir bod gerddi muriog, y mae eu defnydd garddwriaethol wedi dod i ben, yn lleoliadau deniadol ar gyfer datblygiad preswyl newydd, ond rhaid bod yn ofalus a pharchu'r defnydd hanesyddol neu'r gofod agored a'i leoliad. Nid oes rhaid i'r broses o ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy ar gyfer gardd furiog olygu datblygiad.

Mae'n syniad da cadw a chynnal y planhigion perimedr gan ddefnyddio rhywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad hanesyddol y safle.

Er y dylai nodweddion ffiniau fod yn amlwg, gall y wybodaeth yn y cofnod yn y gofrestr a gwaith ymchwil o fapiau hanesyddol eich helpu i ddeall eu pwysigrwydd. Os bydd nodweddion ffiniau yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall.

## 2.3.7 Adeiladau ac Addurniadau mewn Gerddi

**Gall strwythurau adeiledig o fewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig amrywio'n sylweddol ynghyd â'r graddau y maent wedi goroesi. Cofiwch y gellir diogelu strwythurau fel henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig, neu fel strwythurau cwrtil i adeilad rhestredig.**

Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r prif fathau o strwythur adeiledig y gallwch ddisgwyl eu gweld mewn mathau gwahanol o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac mae llawer o safleoedd yn cynnwys nifer o'r strwythurau hyn sy'n adlewyrchu datblygiad hanesyddol y parc neu'r ardd:

**parciau canoloesol** — tystiolaeth o ffiniau parc ar ffurf cloddiau a ffosydd (palis parc), waliau cerrig, clostiroedd, cyfadeiladau porthordai parc, ysguboriau, cysgodfannau, pyllau a chwningaroedd

**parciau a gerddi ffurfiol** — waliau, terasau, llwybrau, deildai, hafdai, arsyllfeydd, logias, cerfluniau, deialau haul, ffowntenni a nodweddion dŵr eraill a systemau rheoli dŵr cysylltiedig

**parciau wedi'u tirweddu** — stablau ac adeiladau gwasanaethau ystad eraill, adeiladau fferm, porthordai mynediad, rhewdai, cytiau cŵn, ogofdai, ffugadeiladau, cofadeiladau, pontydd, nodweddion dŵr a systemau rheoli dŵr cysylltiedig, tai cychod a baddondai

**gerddi muriog** — mannau agored wedi'u hamgáu gan waliau terfyn gyda gwahanfuriau mewnol yn aml, y gall rhai ohonynt fod wedi'u gwresogi, tai garddwyr, cytiau, tai gwydr, cytiau cefn, fframiau, tai madarch, boncyffion gwenyn, llwybrau a ffynonellau dŵr fel ffynhonnau neu byllau

**parciau cyhoeddus** — porthordai mynedfeydd, rheiliau terfyn, cysgodfannau, ystafelloedd gwydr, bandstandiau, pontydd, ffowntenni yfed, tai cychod, cerfluniau, cofebion rhyfel, cofadeiladau a ffowntenni

**mynwentydd** — porthordai mynedfeydd, gatiau mynedfeydd a waliau neu reiliau terfyn, capeli, cofebion, cerfluniau a cherrig beddi

**tirweddau sefydliadau** — porthordai mynediad, gatiau mynediad a waliau perimedr, adeiladau ysbytai, sefydliadau addysgol, capeli, llwybrau a chysgodfannau.

**Yn aml, bydd strwythurau adeiledig yn agored i ddifrod, dadfeiliad ac esgeulustod. Mae'n bwysig gwneud gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn para. Dylech ddefnyddio deunyddiau a dulliau sy'n cydweddu ar gyfer unrhyw waith atgyweirio. Mae angen i unrhyw waith gael ei lywio gan ddealltwriaeth o'r strwythur hanesyddol a'r cyflwr. Fe'ch cynghorir i geisio cyngor gan weithiwr proffesiynol cymwysedig a phrofiadol cyn atgyweirio strwythurau hanesyddol.**

**Os bydd strwythurau adeiledig yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd heneb gofrestredig neu ganiatâd adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am wneud newidiadau i adeiladau rhestredig yn** *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*.[31] **Os yw eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn rhan o ardal gadwraeth, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad.**

## 2.3.8 Nodweddion Dŵr

Mae nodweddion dŵr yn rhan hanfodol o lawer o erddi a pharciau hanesyddol. Gallant fod yn artiffisial neu'n naturiol, neu'n gyfuniad o'r ddau, ond beth bynnag fo eu ffurf, gall nodweddion dŵr wella dyluniad parciau a gerddi mewn sawl ffordd ynghyd â'r profiad o ymweld â hwy.

Gall camlas fod yn ganolbwynt i gynllun ffurfiol, cymesurol; mae llyn mawr, llonydd yn creu llonyddwch ac yn gwella'r amgylchedd drwy ei adlewyrchiadau; gall rhaeadr wyllt greu sain ac egni; ac mae ffowntenni addurniadol yn ychwanegu apêl weledol, symudiad a sŵn i ardd ffurfiol. Gall ardaloedd o ddŵr gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden hefyd fel nofio a rhwyfo. A gall dŵr fod yn ddefnyddiol mewn gerddi cegin ac mewn rhai adeiladau ystad, fel melinau. Yn gryno, mae gan ddŵr sawl rhinwedd yn amrywio o rinweddau esthetig, symbolaidd a synhwyraidd i rinweddau iwtilitaraidd.

Yn ogystal â'u pwysigrwydd hanesyddol ac archaeolegol, gall fod gwerth palaeoecolegol[32] a bioamrywiaeth uchel i nodweddion dŵr, yn cynnwys presenoldeb rhywogaethau prin ac sydd mewn perygl. I'r gwrthwyneb, gall nodweddion dŵr gynnwys rhywogaethau goresgynnol, sy'n niweidiol i'w cymeriad hanesyddol a gweledol, ac i werthoedd ecolegol.

Gall nodweddion dŵr gynnwys yr enghreifftiau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

**parciau canoloesol — pyllau, pyllau pysgod a chyrsiau dŵr naturiol**

**parciau a gerddi ffurfiol** — pyllau a chamlesi ffurfiol a geometrig, sgydau a ffowntenni

**parciau wedi'u tirweddu** — pyllau, llynnoedd, sgydiau, rhaeadrau, afonydd a nentydd

**gerddi muriog** — pyllau, ffynhonnau a systemau dyfrhau

**parciau cyhoeddus** — pyllau addurniadol, pyllau, llynnoedd a ffowntenni.

**Fel nodweddion hanesyddol eraill yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig, mae'n hanfodol deall pwysigrwydd nodweddion dŵr a strwythurau rheoli dŵr cysylltiedig cyn gwneud newidiadau iddynt. Efallai y gallwch ddod o hyd i wybodaeth am nodweddion dŵr hanesyddol ar fapiau o ystadau a mapiau cynnar yr Arolwg Ordnans, ac efallai y byddant yn ymddangos mewn lluniau, cynlluniau neu ffotograffau hanesyddol o'r safle.**

**Gall nodweddion dŵr a systemau rheoli dŵr fod yn agored i ddifrod, dadfeiliad ac esgeulustod. Mae gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn para, i gynnal maint a ffurf, ac i gadw cymeriad hanesyddol.**

Mae siltio, gollyngiadau a rhwystrau oll yn broblemau cyfarwydd. Mae'n arfer da clirio llystyfiant goresgynnol a llystyfiant sydd wedi syrthio yn rheolaidd, a all helpu i atal problemau. Dylid bod yn ofalus wrth ddad-siltio er mwyn sicrhau na ddifrodir leininau sy'n aml wedi'u gwneud o glai.

Gall da byw erydu neu gywasgu ymylon nodweddion dŵr gan effeithio'n andwyol ar eu strwythur a'u ffurf yn ogystal â'u lleoliad uniongyrchol. Gall newid trefniadau rheoli helpu i ddatrys y materion hyn.

Dylid defnyddio deunyddiau a dulliau sy'n cydweddu wrth wneud gwaith atgyweirio yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r strwythur hanesyddol a'r cyflwr. Dylech geisio cyngor gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau a phrofiad priodol cyn atgyweirio neu adnewyddu nodweddion dŵr hanesyddol yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig.

Os bydd nodweddion dŵr yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ar ecoleg a bioamrywiaeth nodweddion dŵr.

## 2.3.9 Planhigion

Y brif elfen sy'n golygu bod parciau a gerddi hanesyddol yn wahanol i asedau hanesyddol eraill yw eu helfen fyw — y planhigion. Yn ôl eu natur, mae planhigion yn newid drwy'r amser gyda'r tymhorau ac wrth iddynt gyrraedd diwedd eu hoes naturiol. Efallai bod y nodweddion planedig yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol yn rhan annatod o'r cynllun a'r strwythur hanesyddol, ond maent yn apelio at y synhwyrau hefyd ac yn darparu siâp, lliw a gwead i'r olygfa. Maent hefyd yn darparu cynefinoedd bywyd gwyllt cyfoethog ac amrywiol.

Mae'n bwysig deall pwysigrwydd yr elfennau planedig. Gall planhigion gynnwys ardaloedd o lawnt ffurfiol, porfa parcdir, borderi a gwelyau ffurfiol ac anffurfiol, tocwaith, prysglwyni, coed a llwyni parcdir, coederddi, perllannau, coetir addurniadol a/neu frodorol a lleiniau cysgodi. Efallai mai coed hynafol a sefydledig yw'r elfennau hynaf sydd wedi goroesi yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig, yn bodoli cyn i'r dirwedd gael ei chynllunio a'i hymgorffori yn y dyluniad. Mae rhai parciau a gerddi hanesyddol yn cynnwys casgliadau pwysig o blanhigion neu sbesimenau prin ac anarferol.

Efallai y bydd y planhigion yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

**parciau canoloesol** — porfeydd garw, coetiroedd hynafol, coed wedi eu tocio a choed hynod

**parciau a gerddi ffurfiol** — lloriau, terasau, borderi, llwyni, lonydd coed, cellïoedd, coetiroedd ffurfiol gyda llwybrau cerdded, llwybrau marchogaeth a golygfeydd echelinol

**parciau tirlun** — coed parcdir unigol, clystyrau o goed, lleiniau a choetiroedd terfyn, coederddi a lonydd coed

**gerddi cegin muriog** — cynnyrch gerddi cegin a pherllannau

**parciau cyhoeddus** — coed conifferaidd a chollddail unigol drwy'r parc, ond hefyd rhai sy'n diffinio'r ffin; coederddi, lonydd coed, llwyni, borderi llwyni a blodau, gerddi rhosod, gerddi botaneg, ardaloedd o garped o blanhigion, planhigion mewn tai gwydr ac ystafelloedd gwydr

**mynwentydd** — coed unigol a choed bytholwyrdd yn arbennig fel yw, gerddi coffa

**tirweddau sefydliadol** — lawntydd, coed, borderi blodau, llwyni, gerddi cegin a pherllannau.

**Nid yw cofrestru yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar gynlluniau plannu na'r dewis o blanhigion; fodd bynnag, gall deall pwysigrwydd y planhigion yn eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig eich helpu i'w rheoli a gwella'r cymeriad hanesyddol.**

**Dylai planhigion, sy'n elfen bwysig o'r dyluniad hanesyddol, fel coed unigol mewn parcdiroedd a gerddi, lonydd coed, clystyrau, coederddi a phlanhigion 'strwythurol' eraill gael eu cadw, lle y bo modd, a'u rheoli'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn para. Dylid plannu coed newydd mewn ffordd sy'n gydnaws â chymeriad hanesyddol y parc neu ardd gofrestredig o ran lleoliad a rhywogaeth. Lle y bo modd, y ffordd orau o wneud hyn yw drwy dyfu coed o stoc bresennol yr ystad. Y coed hyn fydd coed hynafol a choed hynod y dyfodol. Efallai y bydd angen addasu planhigion er mwyn ystyried newidiadau yn yr hinsawdd, fel bygythiadau gan blâu a chlefydau, neu niwed gan**

stormydd. Gall arolygon coed rheolaidd sy'n gysylltiedig â chynllun rheoli fod yn syniad da er mwyn eich helpu i gynllunio ar gyfer dyfodol eich parc neu ardd hanesyddol.

Mewn parcdir hanesyddol, dylech gadw cyfluniad hanesyddol porfa agored ac ardaloedd coediog, a cheisio ei adfer os oes angen. Bydd cadw ardaloedd o barcdir agored ac osgoi planhigion amhriodol yn helpu i gadw'r hyn sy'n arbennig am eich parc hanesyddol. Hefyd, dylid osgoi darnio parcdir agored gydag israniadau newydd, fel gwrychoedd.

Mae porfa parcdir, a gâi ei phori'n hanesyddol, o werth gwych yn weledol, yn hanesyddol ac o ran bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dros amser, efallai bod arferion amaethyddol wedi troi'r parcdir yn dir amaethu âr neu dir coedwig. Os bydd hyn wedi digwydd, ystyriwch ei droi'n ôl i borfa a gaiff ei phori gan gadw at y defnydd tir, cymeriad a lleoliad hanesyddol, a gwella cynefinoedd y parcdir.

Mae lefelau stocio addas yn bwysig er mwyn sicrhau na chaiff parcdir hanesyddol ei danbori na'i orbori. Gall y naill a'r llall gael effaith andwyol ar y cymeriad hanesyddol a gweledol, a hefyd ar y gwerth ecolegol, yn cynnwys colli llinellau blaenbori nodweddiadol coed parcdir. Gall tanbori arwain at ledaeniad rhedyn a phrysgwydd mewn ardaloedd o barcdir agored. I'r gwrthwyneb, gall gorbori arwain at gywasgu pridd a/neu erydu, lefelau uwch o flaenbori a rhwbio rhisgl, lefelau maeth uchel a achosir gan groniad o dail a throeth da byw, a cholli amrywiaeth rhywogaethau glaswelltir.

Mae ardaloedd a ddefnyddir gan anifeiliaid i gysgodi neu ardaloedd o amgylch cafnau bwydo ac yfed yn agored i niwed. Mae nodweddion hanesyddol a choed parcdir yn arbennig o agored i niwed.

Dylech osgoi gweithgaredd amaethyddol o amgylch coed parcdir lle gellir niweidio gwreiddiau a ffwng mycorhisol cysylltiedig yn rhwydd. Mae gan ffwng mycorhisol gydberthynas symbiotig bwysig â system wreiddiau coeden, sy'n eu galluogi i echdynnu maeth a dal dŵr. Mewn gwirionedd, mae'r ffwng yn darparu system wreiddiau eilaidd sy'n fwy effeithlon ac eang na system wreiddiau'r goeden ei hun.

Dylid osgoi aredig, agor ffosydd, storio deunyddiau, a chywasgu gan gerbydau a cherddwyr o amgylch gwreiddiau coed hefyd.

Ceisiwch gadw coed parcdir aeddfed, hynafol a hynod, yn cynnwys coed sy'n marw neu goed marw sy'n dal i sefyll, oherwydd eu gwerth uchel yn hanesyddol, yn ddiwylliannol ac o ran bioamrywiaeth. Gellir gadael coed marw sydd wedi cwympo lle y maent fel cynefinoedd gwerthfawr i fywyd gwyllt, ond dylech ystyried yr effaith weledol y gall hyn ei chael ar y parcdir a chyfyngu ar eu niferoedd neu eu symud i leoliad amgen fel y bo'n briodol. Ceir rhagor o wybodaeth am goed hynod a hynafol gan Coed Cadw a'r Fforwm Coed Hynafol.[33]

Os bydd angen trin coed — ar ôl cael cyngor arbenigol gan dyfwyr coed cymwys — dylid gwneud cyn lleied â phosibl, ond digon i ymestyn oes y goeden neu sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried cwympo coed sydd ag arwyddocâd hanesyddol i'ch parc neu ardd gofrestredig. Lle y bo'n briodol, gellir gadael y bôn lle y mae fel cofnod o'r goeden a gollwyd a hefyd fel cynefin i fywyd gwyllt. Gellir cyfrif y cylchoedd ar fôn coeden aeddfed er mwyn amcangyfrif ei hoedran.

Efallai bod coed wedi'u diogelu gan Orchmynion Cadw Coed, statws ardal gadwraeth neu amodau cynllunio felly efallai y bydd angen ichi hysbysu neu geisio caniatâd gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau ar y gwaith. Efallai y bydd angen i rai mathau o waith mewn ardaloedd coetir gael trwydded cwympo coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd (gweler adran 1.6.3). Efallai y gwelwch fod trefniadau archwilio coed yn ddefnyddiol, yn enwedig ar gyfer coed sy'n agos at ffyrdd neu lwybrau troed cyhoeddus.

## 2.3.10 Dogfennu a Chofnodi

Mae'n bwysig dogfennu a dysgu o'r penderfyniadau a wnewch wrth wneud newidiadau i'ch parc neu ardd hanesyddol gofrestredig.

Pan gaiff rhan o nodwedd neu'r nodwedd gyfan ei cholli neu ei haddasu, mae'n arfer da cofnodi a dadansoddi'r nodwedd hon ac ymchwilio iddi wrth iddi gael ei datgelu dros gyfnod y gwaith.

Dylid cadw'r wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw waith ymchwil hanesyddol a gasglwyd gennych, a rhoi copi yng nghofnod amgylcheddol hanesyddol eich awdurdod lleol, a reolir gan un o bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru ac y gellir ei weld drwy Archwilio.[34] Dylid rhoi copi i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru hefyd, sef archif genedlaethol Cymru a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.[35] Rydym hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth hanesyddol ychwanegol am safleoedd ar y gofrestr.

3–

# Newid yn yr Hinsawdd

**Mae modelau newid yn yr hinsawdd yn rhagweld y bydd tymheredd uwch yn fyd-eang yn golygu tymheredd cymedrig uwch drwy gydol y flwyddyn gyda hafau sychach neu wlypach a phoethach, gaeafau gwlypach a chynhesach a thywydd mwy eithafol fel llifogydd a sychder. Mae gwaith parhaus yn asesu effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn cynnwys parciau a gerddi hanesyddol. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol wedi llunio** *Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu'r Sector*[36] **a chaiff y wybodaeth ddiweddaraf ei chyhoeddi ar wefan Cadw. Gall parciau a gerddi hanesyddol sy'n cael eu dathlu am eu rhywogaethau egsotig fod ar eu hennill oherwydd y gall rhai planhigion sy'n hoffi gwres ffynnu mewn amodau cynhesach. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi addasu prosesau gofalu am blanhigion, y dewis o blanhigion a rheoli tai gwydr. Gall tymheredd uwch arwain at fwy o risg o dân mewn llystyfiant sydd wedi sychu hefyd.**

Mewn mannau eraill, efallai y bydd angen i chi ystyried strategaethau addasol wrth i goed, planhigion a strwythurau adeiledig gael eu colli neu eu difrodi oherwydd stormydd a llifogydd amlach. Bydd angen storio dŵr dros y gaeaf i'w ddefnyddio yn ystod misoedd sychach yr haf hefyd.

Bydd tymereddau tymhorol uwch yn helpu plâu a chlefydau gardd i oroesi, a all newid cymeriad parciau a gerddi hanesyddol yn uniongyrchol ac o ganlyniad i'r ffaith y bydd coed a phlanhigion yn diflannu. Efallai y bydd angen i chi ystyried cyflwyno rhywogaethau planhigion a choed ag ymwrthedd gwell.

Bydd rhagor o gyngor yn dilyn ynghylch addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd ar bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol.

# 4–
# Cyfleoedd Eraill

## 4.1
## Cyllid

Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am gymorth grant er mwyn eich helpu i gynnal a gwella eich parc neu ardd hanesyddol. Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol[37] nifer o gynlluniau grant sydd yn gallu helpu i gysylltu pobl, natur a threftadaeth ac mae Cynllun Grantiau Bach Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru[38] yn cynnig cyllid tuag at gost gwaith cadwraeth, arolygon a phrosiectau sy'n hyrwyddo mynediad, diddordeb a mwynhad y cyhoedd. Mae'r Historic Houses Foundation[39] yn dyfarnu grantiau ar gyfer atgyweirio a gwarchod adeiladau a strwythurau hanesyddol gwledig hefyd gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gerddi, tir a thai allan.

Weithiau, gallwn gynnig cymorth grant ar gyfer gwaith atgyweirio i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig.

Os byddwch wedi cofrestru ar gynllun rheoli tir cynaliadwy, efallai y bydd eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn gymwys i gael cymorth grant.

## 4.2
## Addysg a Sgiliau Treftadaeth

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn lleoliadau difyr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored sy'n cynnig buddiannau addysgol, cymdeithasol a chorfforol. Maent yn cynnig cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddefnyddio'r amgylcheddau hanesyddol a naturiol er mwyn dysgu am yr ardal leol, a all gynnwys ysgolion a chymunedau lleol.

Gall cymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol hefyd sy'n amrywio o gynnal a chadw planhigion a thir i waith ymchwil a dehongli hanesyddol.

Mae angen sgiliau traddodiadol i gynnal a chadw llawer o'r elfennau mewn parciau a gerddi hanesyddol, felly efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth, drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er enghraifft, er mwyn cynyddu'r gronfa o arbenigedd treftadaeth.

4.3

# Mynediad i'r Cyhoedd

Gall parciau a gerddi hanesyddol, y mae llawer ohonynt yn agored i'w darganfod a'u mwynhau, helpu i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl. Mae parciau a gerddi yn ysgogi'r synhwyrau ac yn cynnig lle ar gyfer hamddena a gwneud ymarfer corff, a gall plannu a thyfu feithrin hunanhyder a rhoi ymdeimlad o gyflawni.

Er bod llawer o'r safleoedd ar y gofrestr ar agor neu'n hygyrch i'r cyhoedd, nid yw cofrestriad yn rhoi unrhyw hawl i'r cyhoedd gael mynediad i dir preifat. Mae rhai safleoedd ar agor yn achlysurol drwy gynlluniau fel y Cynllun Gerddi Cenedlaethol[40] neu ein cynllun Drysau Agored[41], sy'n galluogi ymwelwyr i fwynhau a gwerthfawrogi gwerth parciau a gerddi hanesyddol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn agor eich parc neu ardd hanesyddol gofrestredig am benwythnos bob blwyddyn fel rhan o'n cynllun Drysau Agored, ewch i Drysau Agored www.cadw.llyw.cymru/ymweld/be-syn-digwydd/drysau-agored

Cafodd rhai parciau neu erddi hanesyddol eu dylunio fel amwynderau cyhoeddus a gallant wynebu pwysau sy'n gwrthdaro rhwng eu defnydd modern fel cyfleusterau hamdden a'u diben gwreiddiol fel gerddi cyhoeddus, sydd yn aml yn enwog am eu planhigion. Dylai rheolwyr geisio cydbwyso pwysigrwydd hanesyddol ag anghenion amwynderau modern.

Mae hefyd yn bwysig ystyried nifer yr ymwelwyr y gall safleoedd eu derbyn a sicrhau cyfyngiadau priodol. Efallai y bydd angen newidiadau dros dro a newidiadau y gellir eu gwrthdroi, fel cyflwyno matiau neu ffensys gwarchodol, er mwyn rheoli cylchrediad ymwelwyr ac atal difrod i rai elfennau hanesyddol.

# Rhagor o Wybodaeth

## Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

**Cof Cymru** — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig.
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

Mae'r cofrestrau cyhoeddedig canlynol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am bob parc a gardd hanesyddol gofrestredig yng Nghymru.

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Gwent* (Caerdydd, 1994).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Clwyd* (Caerdydd, 1995).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn* (Caerdydd, 1998).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Powys* (Caerdydd, 1999).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Morgannwg* (Caerdydd, 2000).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro* (Caerdydd, 2002).

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Cofnodion Ychwanegol a Diwygiedig* (Caerdydd, 2007).

## Ffynonellau Gwybodaeth Ar-lein

Gellir defnyddio'r ffynonellau canlynol i ddod o hyd i wybodaeth am barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac anghofrestredig yng Nghymru.

**Archifau Cymru** — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth am fwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a gedwir gan 21 o archifau yng Nghymru mewn un chwiliad. www.archifau.cymru

**Archwilio** — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i gefnogi gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

**Coflein** — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.
www.coflein.gov.uk/cy/

**Cynefin** — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion www.lleoedd.llyfrgell.cymru

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol.
www.cymru-hanesyddol-rcahmw.hub.arcgis.com

**LANDMAP** — yr adnodd tirwedd sylfaenol ar-lein a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyhoeddir setiau data LANDMAP i'w lawrlwytho hefyd i'w defnyddio mewn system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) ar
www.lle.gov.wales/Catalogue?text=landmap&lang=cy

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Hanesyddol

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Diwylliannol

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf. www.enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk

**Parks & Gardens UK** — adnodd ar-lein yw Parks & Gardens UK ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol sy'n darparu gwybodaeth am barciau, gerddi a thirweddau a ddyluniwyd yn y DU a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o'u hyrwyddo, eu gwarchod a'u rheoli. www.parksandgardens.org

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru** — mynediad ar-lein i amrywiaeth o gasgliadau yn cynnwys mapiau, lluniau a ffotograffau. www.llyfrgell.cymru

## Polisi a Chanllawiau Cynllunio

*Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol*
*www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru*

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*
*www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol*

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
*www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol*

## Canllawiau Arfer Gorau

*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, 2011*
*www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth*

*Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*
*www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth*

*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*
*www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig)*

*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*
*www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth*

## Deunydd Darllen Ychwanegol


*Ancient Tree Guide No.1: Trees and Farming*, Coed Cadw, 2005
www.woodlandtrust.org.uk/publications/2005/01/ancient-tree-guide-1/

*Ancient Tree Guide No.2: Trees in Historic Parks and Landscape Gardens*, Coed Cadw, 2008
www.woodlandtrust.org.uk/publications/2008/12/ancient-tree-guide-2/

*Ancient Tree Guide No.4: What are Ancient, Veteran and Other Trees of Special Interest?* Coed Cadw, 2008
www.woodlandtrust.org.uk/publications/2008/11/what-are-ancient-veteran-and-trees-of-special-interest/

*Ancient Tree Guide No. 5: Trees and Climate Change*, Coed Cadw, 2008
www.woodlandtrust.org.uk/publications/2008/12/ancient-tree-guide-5/

*Newid yn yr Hinsawdd ac Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Crynodeb o Effeithiau Posibl, Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, 2012*
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/newid-hinsawdd-0

*Forests and Historic Environment,* Canllawiau Safon Coedwigaeth y DU, Y Comisiwn Coedwigaeth, 2017
www.gov.uk/government/publications/the-uk-forestry-standard

*Forests and Landscape*, Canllawiau Safon Coedwigaeth y DU, Y Comisiwn Coedwigaeth, 2017
www.gov.uk/government/publications/the-uk-forestry-standard

*Moats, Ponds and Ornamental lakes in the Historic Environment*, English Heritage, 2011
www.historicengland.org.uk/images-books/publications/moats-ponds-ornamental-lakes-historic-environ/

D. Lambert, P. Goodchild a J. Roberts, *Parks and Gardens: A Researcher's Guide to Sources for Designed Landscapes*, Yr Ymddiriedolaeth Dylunio Tirweddau, 2006

*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru,* Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 1998

*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru,* Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, 2001

Elisabeth Whittle, *The Historic Gardens of Wales,* Cadw: Welsh Historic Monuments/HMSO, 1992

J. Watkins a T. Wright (gol), *The Management and Maintenance of Historic Parks, Gardens and Landscapes: The English Heritage Handbook,* 2007

*Veteran Trees, a Guide to Good Management,* Natural England, 2011
www.publications.naturalengland.org.uk/publication/75035

# Cysylltiadau

**Llywodraeth Cymru**
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Tŷ'r Afon, Heol Bedwas, Caerffili, CF83 8WT
**Ffôn:** 03000 256000
cadw@llyw.cymru
www.llyw.cymru/cadw

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
**Ffôn:** 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk/

**Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru**
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk

Gallwch drefnu ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol ar gyfer ymchwilio i barciau a gerddi hanesyddol, gan gynnwys mapiau hanesyddol, lluniadau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP
**Ffôn:** 0300 065 3000
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresources.wales/?lang=cy

Am wybodaeth lefel uchel am y canlynol:

- dynodiadau cadwraeth natur a all effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
- rhywogaethau a warchodir
- cymeriad tirwedd a all fod yn elfen bwysig o leoliad i barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
- gwybodaeth a chanllawiau am goed.

**Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru**
The Bothy, Aberglasne, Llangathen, SA32 8QH
**Ffôn:** 01558 668998
admin@whgt.org.uk
www.whgt.wales/

Sefydliad cadwraeth a threftadaeth yw Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru a sefydlwyd i ddiogelu a gwarchod tirweddau gerddi a pharciau hanesyddol Cymru. Ymysg ei nodau mae hyrwyddo'r gwaith o gadw a gwarchod parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru ac ymchwilio i hanes gerddi yng Nghymru a'i ddogfennu.

**The Gardens Trust**
70 Cowcross Street, London, EC1M 6EJ
**Ffôn:** 020 7608 2409
enquiries@thegardenstrust.org
www.thegardenstrust.org

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlethol**
www.heritagefund.org.uk/cy

**Cynllun Gerddi Cenedlaethol**
www.ngs.org.uk

**Drysau Agored**
www.cadw.llyw.cymru/ymweld/be-syn-digwydd/drysau-agored

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru**
Gallwch gysylltu â phedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru i gael gwybodaeth a chyngor am eich cofnod amgylcheddol hanesyddol lleol.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
Y Swyddfeydd, Coed y Dinas, Y Trallwng, SY21 8RP
**Ffôn:** 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, SA19 6AE
**Ffôn:** 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/cy/

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe, SA1 6EL
**Ffôn:** 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, LL57 2RT
**Ffôn:** 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

# Cyfeiriadau


1 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 11), Pennod 6: Lleoedd Unigryw a Naturiol
www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

2 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.86434520.1946558339.1648647329-1383277514.1628773472

3 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru,, 2011
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth

4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

5 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents

6 Elisabeth Whittle, *The Historic Gardens of Wales*, Cadw: Welsh Historic Monuments/HMSO, 1992

7 Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

8 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, Atodiad C
www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol

9 Sefydliad cadwraeth a threftadaeth yw Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru a ffurfiwyd i warchod a chadw tirweddau gerddi a pharciau hanesyddol Cymru. Mae ei nodau yn cynnwys hyrwyddo adferiad a chadwraeth parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru ac i ymchwilio a chofnodi hanes gerddi Cymru. www.whgt.wales/

10 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 11), Pennod 6: Lleoedd Unigryw a Naturiol, para. 6.1.18
www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.18328569.1946558339.1648647329-1383277514.1628773472

11 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 11), Lleoedd Unigryw a Naturiol, para, 6.1.19
www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.182879334.1946558339.1648647329-1383277514.1628773472

12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 62(3)
www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/8/section/62

13 Atodlen 4 (l)(iii) i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/schedule/2/made

14 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 7.3
www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol?_ga=2.182889190.1946558339.1648647329-1383277514.1628773472

15 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 7.4
www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol?_ga=2.182889190.1946558339.1648647329-1383277514.1628773472

16 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth

17 *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig

18 Ceir rhagor o wybodaeth am asesiadau a datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth

19 Gellir gweld cofnod amgylchedd hanesyddol pob ardal awdurdod lleol ar-lein drwy Archwilio. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru. www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

20 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth

21 *Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed* www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-10-gorchmynion-cadw-coed?_ga=2.95979612.1109857643.1643117056-1997393999.1640097494

22 Rheoliadau Perthi 1997 www.legislation.gov.uk/uksi/1997/1160/made

23 Cyfoeth Naturiol Cymru www.naturalresources.wales/?lang=cy

24 Forests and Historic Environment, Canllawiau Safon Coedwigaeth y DU, Y Comisiwn Coedwigaeth, 2017 www.gov.uk/government/publications/the-uk-forestry-standard

25 Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

26 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth

27 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth

28 Canllaw Cynllunio Cadwraeth | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol www.heritagefund.org.uk/cy/publications/canllaw-cynllunio-cadwraeth

29 *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth/lleoliad-asedau-hanesyddol

30 Disgrifir tirweddau hanesyddol cofrestredig yn Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

31 Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig

*32* Mae palaeoecoleg yn defnyddio gweddillion organebau, fel cregyn, paill a hadau, i ail-greu amgylcheddau a gweithgarwch dynol y gorffennol. Mae'r rhain yn goroesi'n dda mewn dyddodion dwrlawn, sy'n golygu y gall nodweddion dŵr ddiogelu tystiolaeth y gellid ei defnyddio i ddeall sut roedd y tirweddau o'u hamgylch yn cael eu defnyddio yn y gorffennol neu ba gnydau oedd yn cael eu tyfu, er enghraifft.

33 Coed Cadw www.woodlandtrust.org.uk/

34 Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar-lein. Caiff Archwilio ei gynnal a'i gefnogi gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

35 Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru www.coflein.gov.uk/cy/

36 *Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu'r Sector* 2020
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/newid-hinsawdd/addasu-i-newid-hinsawdd

37 Cyllid | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes

38 Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru — WHGT — the Welsh Historic Gardens Trust — Defending historic gardens, parks and landscapes in Wales www.whgt.wales/

39 Historic Houses Foundation | Mathau o brosiectau sy'n cael eu cyllido
www.historichousesfoundation.org.uk/projects-funded

40 Cynllun Gerddi Cenedlaethol www.ngs.org.uk/

41 Drysau Agored www.cadw.llyw.cymru/ymweld/be-syn-digwydd/drysau-agored?lang=en

Deall a Rheoli

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government